MENTER AR GYFER CADWRAETH NATUR CYMRU

INITIATIVE FOR NATURE CONSERVATION CYMRU

# Disgrifiad Swydd

## Manylion y Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: | Swyddog Rhywogaeth |
| Lleoliad Gwaith: | Prif Swyddfa d/o Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, Sir Gaerfyrddin. Hefyd, gweithio o gartref ac ar y safle (De Cymru). |
| Yn Atebol I: | Prif Swyddog Gweithredol |
| Yn Gyfrifol Am: | Gwirfoddolwyr a Chontractwyr |

## Proffil y Rôl

Mae rôl y Swyddog Rhywogaeth yn cynnwys cylch gwaith amrywiol, gan ganolbwyntio ar un o brosiectau blaenllaw INCC – Adfer Poblogaeth Glöyn Byw Britheg y Gors yn Ne Cymru. Mae'r prosiect a'r rôl yn cael effaith fewnol ac allanol sylweddol ar ddarpariaeth ac enw da'r sefydliad.

Mae mentrau adfer rhywogaethau yn greiddiol i waith INCC, ac rydym yn gobeithio y gellir dod o hyd i gyllid pellach i barhau â'r rôl a'i datblygu i gynnwys mwy o rywogaethau o bryder cadwriaethol.

## Prif Gyfrifoldebau

### Darparu'r Prosiect

- Helpu i oruchwylio prosiect adfer poblogaeth britheg y gors gan gynnwys elfennau o'r gwaith magu mewn caethiwed a'r broses drawsleoli.
- Helpu i ddatblygu rhwydwaith o wirfoddolwyr a chontractwyr i sicrhau cyflenwad digonol o blanhigyn bwyd larfal drwy gydol proses fagu'r lindys.

- Helpu i ddatblygu mentrau ymchwil a monitro addas ar gyfer britheg y gors a'r prosiect adfer poblogaeth.
- Gweithio gyda'r rheolwr llinell, yr Ymddiriedolwyr a phartneriaid y prosiect i godi arian er mwyn parhau â'r prosiect ac ar gyfer mentrau adfer rhywogaethau pellach yng Nghymru.
- Cyfrannu at waith arall y sefydliad pan fo angen.

## Gwaith Partneriaeth

- Ymgysylltu â phartneriaid, cefnogwyr a chyllidwyr sy'n ymwneud â phrosiect adfer poblogaeth britheg y gors a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn rheolaidd.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y bartneriaeth i sicrhau bod mentrau rheoli a chreu cynefinoedd yn cael eu datblygu yn y dirwedd ehangach.
- Helpu i annog a chefnogi sefydliadau academaidd, myfyrwyr a gwirfoddolwyr i ymgymryd â phrosiectau ymchwil addas ar gyfer britheg y gors a'r prosiect adfer poblogaeth.
- Helpu i nodi'r camau nesaf ar gyfer cadwraeth britheg y gors yn nhirwedd Elái Uchaf a mapio'r ffordd orau y gall y bartneriaeth eu cyflawni.

## Cyfathrebu

- Helpu i godi proffil y prosiect a'i ganlyniadau drwy negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, erthyglau ysgrifenedig, datganiadau i'r wasg a chyfryngau addas eraill.
- Gweithio gyda rheolwr y prosiect a phartneriaid i hyrwyddo cadwraeth britheg y gors yn lleol ledled y gwahanol gymunedau yn nhirwedd Elái Uchaf.
- Helpu INCC i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd prosiectau adfer poblogaeth ledled y sector cadwraeth natur.
- Cynnal sgyrsiau addysgol i hyrwyddo'r prosiect a chadwraeth britheg y gors yng Nghymru.
- Os yw'n bosibl, cynnal hyfforddiant cymunedol anffurfiol a theithiau tywys ar y safle derbyn i hyrwyddo'r prosiect a chadwraeth britheg y gors.

# Manyleb y Person

## Profiad

**Hanfodol**

- Profiad o weithio neu wirfoddoli yn y sector cadwraeth natur yng Nghymru.
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr, myfyrwyr a grwpiau cymunedol.
- Profiad o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.
- Profiad o gyflwyno a/neu gydlynu prosiectau cyfathrebu ar draws ystod o blatfformau cyfryngau.
- Profiad o ddatblygu a/neu gyflwyno ymchwil, arolygon a phrosiectau monitro.

**Dymunol**

- Profiad o gadwraeth britheg y gors a'i gofynion ecolegol/cynefin.
- Gwybodaeth am dirwedd Elái Uchaf a'i nodweddion allweddol fel SoDdGA Comin Llantrisant.
- Profiad o godi arian.

## Sgiliau a Doniau

**Hanfodol**

- Diwyd a rhesymegol.
- Cydweithredwr naturiol gyda sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol a'r gallu i feithrin perthnasoedd ar draws sefydliadau.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol a'r gallu i wneud deunydd cyfathrebu ysgrifenedig yn ddarbwyllol a chywir gan ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd.
- Sgiliau ymchwil da a gwybodaeth am bwysigrwydd monitro.
- Rhaid i chi fod â'ch cludiant eich hun a gallu teithio.
- Parodrwydd i ddysgu.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg wrth gyfathrebu.

**Dymunol**

- Sgiliau trefnu personol rhagorol gyda rheolaeth ardderchog ar amser a'r gallu i flaenoriaethu'n effeithiol a chydlynu eraill.
- Y gallu i rymuso ac ysbrydoli pobl i weithredu dros fywyd gwyllt a chadwraeth natur.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion cadwraeth lleol a cenedlaethol a dulliau gweithredu gyda chadwraeth natur.
- Siaradwr Cymraeg neu ddysgwr Cymraeg.